**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD LLUN, 5 GORFFENNAF 2021**

**BWRDD GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.R.Lockyer a/ac P.D.Richards (Cadeirydd)

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Davies, R Davies, G.Evans, A.Bradshaw, C.Frey-Davies, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd P D Richards yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Mai 2021 fyn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

3. **BLAENRAGLEN WAITH 2021-2022**

Bod y Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/2022 yn cael ei nodi.

4. **POLISI GOSODIADAU TAI A RENNIR YMGYNGHOROL DRAFFT CYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT A TAI TARIAN 2021**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad effaith integredig, rhoddir caniatâd i Swyddogion gynnal ymgynghoriad cyhoeddus 90 niwrnod ar Bolisi

Gosodiadau Tai a Rennir ymgynghorol 2021, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod y cyngor a Tai Tarian yn cydymffurfio â'u cyfrifoldeb cyffredin i adolygu eu Polisi Gosodiadau Tai a Rennir o bryd i'w gilydd, a threfnu bod y ddogfen adolygedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

5. **TREFNIADAU ADRODD AM BERFFORMIAD Y GWASANAETHAU PLANT A PHOBL IFANC A'R GWASANAETHAU I OEDOLION AR GYFER 2021-22**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

6. **CANOLFAN ADNODDAU YMYRRYD YN GYNNAR A CHYFIAWNDER IEUENCTID CNPT**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

7. **ADOLYGIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O DREFNIADAU CORFFORAETHOL AR GYFER DIOGELU - CASTELL-NEDD PORT TALBOT, DYDDIEDIG MIS MAWRTH 2020.**

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad monitro.

8. **POLISI CODI TÂL AM OFAL PRESWYL A DIBRESWYL**

**Penderfyniad:**

Caiff y Polisi Codi Tâl am Ofal Preswyl ac Dibreswyl ddiweddaredig, fel y'i nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, ei gymeradwyo.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Diweddaru'r Polisi Codi Tâl i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth a thynnu sylw at gysylltiadau â pholisïau eraill y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**